# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER 13EG EBRILL 2016 AM 2.00P.M.

---

PRESENNOL:

Y Cynghorydd K.V. Reynolds - Cadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs C. Forehead (Adnoddau Dynol a Llywodraethu/Rheolwraig Fusnes), N. George (Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), D. Hardacre (Rheoli Perfformiad ac Asedau), K. James (Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy), Mrs B. Jones (Gwasanaethau Corfforaethol) D.V. Poole (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai), T.J. Williams (Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg), R. Woodyatt (Gwasanaethau Cymdeithasol).

Ynghyd â:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), N. Scammell (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Corfforaethol a Swyddog Adran 151), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol). C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Gorfforaethol - Cymunedau)

Hefyd yn bresennol:

L. Lucas (Pennaeth Caffaeliad), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd R. Passmore.

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar gychwyn y cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod, gofynnodd y Cynghorydd Mrs Forehead am gyngor ynghylch a oedd gofyn iddi ddatgan diddordeb yn yr eitem yn ymwneud â Datblygu Gwasanaeth Therapiwtig Dwys ar gyfer Plant Mewn Gofal yng Nghaerffili. Cafodd ei chynghori mai diddordeb personol nid andwyol ydoedd felly nad oedd gofyn iddi ddatgan diddordeb.

### 3. CABINET – 30AIN MAWRTH 2016

PENDERFYNWYD y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Mawrth 2016 (cofnodion rhif 1 i 10) gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## MATERION A OEDD YN GOFYN AM BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. STRATEGAETH DDRAFFT GWASANAETHAU CWSMER 2016-2020

Gofynnodd yr adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Polisïau ac Adnoddau ar 19eg Ionawr 2016, am gymeradwyaeth i Strategaeth Gwasanaethau Cwsmer 2016-2020.

Cynghorwyd Aelodau bod Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer y Cyngor wedi bod mewn lle ers 2006 a'i fod wedi'i rhannol ddiweddaru ar sawl achlysur. Fodd bynnag, y mae'r amgylchedd ariannol y mae'r Cyngor yn gweithio ynddo wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn yr un modd ag y mae disgwyliadau cwsmeriaid sydd, yn gynyddol, yn disgwyl i wasanaethau fod ar gael ar-lein felly y mae angen gosod Strategaeth newydd a fydd yn diwallu'r gofynion.

Cyfeiriwyd at brif ddeilliannau strategol y Strategaeth – i wella cysondeb gwasanaethau cwsmer ar draws y mudiad, i ddiwallu disgwyliadau cwsmeriaid y bydd gwasanaethau ar gael ar-lein a fydd hefyd yn lleihau'r gost o ran cyswllt cwsmer a datblygu gwasanaethau cwsmer mewn person fel ei fod wedi'i ganolbwyntio yn fwy ar gyflenwi gwasanaethau cymhleth neu ymdrin â chwsmeriaid sy'n fwy agored i niwed neu sydd o dan anfantais. Atodwyd copi o'r Strategaeth ddrafft i'r adroddiad.

Cadarnhawyd, pe bai'n cael ei mabwysiadu yn swyddogol y bydd y Strategaeth Gwasanaeth Cwsmer wedi'i chefnogi gan Gynllun Cyflenwi a fydd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Strategaeth TG Corfforaethol a fydd hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo a monitro prosiectau sy'n deillio o'r strategaeth a sicrhau bod y strategaeth yn parhau i fod yn berthnasol.

Nodwyd, pan gafodd ei drafod yn ystod y Pwyllgor Craffu Polisïau ac Adnoddau, bod Aelodau wedi codi cwestiynau ynghylch cyfeiriad a ffocws strategol y ddogfen, yr angen i wasanaethau sy'n wynebu'r cwsmer gael eu cynnal a bod angen penderfynu sut y byddai'r Strategaeth yn cael ei bwydo yn ôl i gwsmeriaid. Cytunwyd, yr adeg honno, y byddai modd cymryd y barnau hyn i ystyriaeth yn y ddogfen derfynol.

Wrth gymryd barnau'r Pwyllgor Craffu i ystyriaeth, atgyfnerthwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei harolygu yn rheolaidd a'i monitro'n ofalus wrth symud ymlaen i sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu diwallu.

Yn dilyn ystyriaethau a thrafodaethau, a gan ystyried y barnau a fynegwyd yn ystod y Pwyllgor Craffu Polisiau ac Adnoddau (y byddant yn cael eu cynnwys o fewn y ddogfen), gwnaethpwyd cynnig a eiliwyd y dylai'r argymhelliad yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo. Gan godi llaw i nodi, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

> PENDERFYNWYD, yn amodol ar farnau a fynegwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu Polisiau ac Adnoddau yn cael eu cynnwys o fewn y Strategaeth, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys o fewn adroddiad y Swyddogion, y dylai'r Strategaeth Gwasanaethau Cwsmer, fel y nodwyd uchod, gael ei mabwysiadu.

## 5. DATBLYGU GWASANAETH MAETHU THERAPIWTIG DWYS AR GYFER PLANT MEWN GOFAL YNG NGHAERFFILI

Mae'r adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 22ain Mawrth 2016, yn gosod cynnig i ddatblygu gwasanaeth maethu therapiwtig dwys amlddisgyblaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifainc Mewn Gofal o fewn y fwrdeistref sirol.

Cynghorwyd Aelodau bod plant a phobl ifainc mewn gofal sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn tueddu i brofi nifer o leoliadau gofal maeth sy'n methu. Y mae eu hymddygiad o gymryd risg ac anghenion emosiynol sylweddol yn aml yn mynd y tu hwnt i adnoddau Gofalwyr Maeth Awdurdod Lleol ac, o ganlyniad i symud i nifer o leoliadau, yn aml nid oes modd i

Wasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a'r Glasoed (*CAMHS*) craidd fynd i'r afael â'u hanghenion. O ganlyniad i hyn, caiff nifer o'r bobl ifainc hyn sy'n profi'r trafferthion mwyaf eu lleoli mewn gofal preswyl y tu allan i'r ardal gan brofi canlyniadau clinigol gwael ac ar gost enfawr. Esboniwyd nad yw'r dull hwn yn un cynaliadwy a bod angen dull gwahanol er mwyn diwallu anghenion y grŵp hwn o blant a phobl ifainc mewn gofal sy'n profi trafferthion yn well.

Cyfeiriwyd at y gwasanaethau maethu therapiwtig o'r enw *MIST* (*Multi-disciplinary Intervention Service Torfaen*) sydd wedi'i gomisiynu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac sydd wedi bod yn rhedeg ers 12 mlynedd. Mae *MIST* yn rhoi cymorth dwys i nifer fach o ofalwyr maeth therapiwtig sydd wedi'u recriwtio a'u hyfforddi yn arbennig er mwyn dychwelyd pobl ifainc sydd wedi'u rhoi mewn gofal preswyl y tu allan i'r ardal ac i atal pobl ifainc, efallai y byddant mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal preswyl, rhag symud y tu allan i'r ardal. Cynigir bod gwasanaeth o'r un fath â *MIST* yn cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion plant a phobl ifainc ardal Caerffili.

Cynghorwyd Aelodau, trwy fabwysiadu ymagwedd leol, y bydd y model, mewn gwirionedd, yn creu tîm o amgylch y person ifanc. Cynigir y bydd y gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan y trydydd sector ac y mae manyleb gwasanaeth ddrafft yn cael ei datblygu i hysbysu'r broses gaffael os cymeradwyir y cynnig. Cyfeiriwyd at y goblygiadau ariannol a chynigiwyd y byddai cronfeydd cyllideb y Gyfarwyddiaeth yn cael eu defnyddio i ariannu sefydlu'r gwasanaeth hwn yng Nghaerffili. Nod y gwasanaeth yw iddo dalu am ei gostau ei hun o fewn 18 mis o gael ei sefydlu. Dros amser, disgwylir i'r arbedion gynyddu wrth i nifer gynyddol o bobl ifainc gael eu cefnogi i aros o fewn ardal Caerffili ac, efallai, bydd cyfle i werthu lleoliadau i awdurdodau eraill.

Nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles wedi cefnogi'r cynnig ac wedi gofyn bod argymhelliad pellach yn cael ei gynnwys i alluogi adroddiad ar y ddarpariaeth i ddod yn ôl gerbron y pwyllgor 18 mis ar ôl iddi gael ei sefydlu.

Yn dilyn ystyriaethau a thrafodaethau a gan ystyried yr argymhelliad ychwanegol gan y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, cafodd ei moved a'i eilio y dylai argymhellion yr adroddiad, yn amodol ar adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 18 mis ar ôl ei sefydlu, gael eu cymeradwyo. Gan godi llaw i nodi, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys o fewn adroddiad y Swyddogion:-

(i) bod cynnwys yr adroddiad wedi'i nodi;

(ii) y dylai datblygu'r gwasanaeth arfaethedig fel y nodwyd yn yr adroddiad gael ei gymeradwyo;

(iii) y dylai'r cynnig i ddefnyddio cronfeydd cyllideb y Gyfarwyddiaeth i sefydlu'r gwasanaeth gael ei gefnogi;

(iv) y dylai adroddiad pellach ar y ddarpariaeth gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r Cabinet 18 mis ar ôl iddi gael ei sefydlu.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm

Cymeradwywyd ac arwyddwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn ystod y cyfarfod a gynhelir ar 18fed Mai 2016.

________________________

CADEIRYDD